Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

# Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 728A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a wnaeth fy helpu i baratoi'r adroddiad hwn oedd Matthew Coe, Anthony Ford, Jeremy Saunders, Gabrielle Smith a Dave Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 11 |
| Mae rheolaeth ariannol gadarn yn parhau i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn mantoli'r gyllideb ac yn cyrraedd y targedau o ran gwneud arbedion | 11 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei ffocws ar ei blaenoriaethau strategol a gweithredol, a'r risgiau cysylltiedig, a'i threfniadau llywodraethu, er bod lle i brysuro gwelliannau pellach | 12 |
| Mae trefniadau ar gyfer ceisio ac ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaethau yn gwella | 18 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 21 |
| Ffi archwilio | 22 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2014.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn â swyddogion a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Cyflwynir yr adroddiad i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2015. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater.
7. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol;
   - roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.
8. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2013-14, ar ôl cyflawni gwarged fach o £15,000 ar incwm gwerth £105 miliwn. Nodaf yn fanylach y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth a digonolrwydd ei threfniadau llywodraethu, gan gynnwys trefniadau i gynllunio'n effeithiol a mesur cynnydd o ran llywodraethu ansawdd a threfniadau ers y llynedd, yn enwedig o ran ceisio ac ymateb i brofiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar y casgliadau canlynol.

### Mae rheolaeth ariannol gadarn yn parhau i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn mantoli'r gyllideb ac yn cyrraedd y targedau o ran gwneud arbedion

**10.** Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda ac wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei thargedau o ran gwneud arbedion a'i thargedau statudol i fantoli'r gyllideb yn gyson. Ar ddechrau 2013-14, nododd yr Ymddiriedolaeth fwlch ariannu o £1.3 miliwn ,a'i bwriad oedd cau'r bwlch hwnnw drwy raglen arbed costau. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r arbedion hyn, yr oedd cyfran sylweddol ohonynt yn rhai cylchol. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged o tua £15,000 hefyd yn unol â'r sefyllfa ragweledig lle y mantolir y gyllideb.

**11.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu dull cadarn o ymdrin â rheolaeth ariannol yn 2014-15 ac mae'r cynllunio strategol wedi ei ymgorffori ar lefel is-adrannol ynghyd â chyfrifoldeb am fantoli'r gyllideb ac arbed costau. Mae'r adroddiadau diweddaraf yn rhagweld sefyllfa lle y mantolir y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei ffocws ar ei blaenoriaethau strategol a gweithredol, a'r risgiau cysylltiedig, a'i threfniadau llywodraethu, er bod lle i brysuro gwelliannau pellach

**12.** Canfu fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth y canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n defnyddio fframwaith cynllunio'r GIG i helpu i ganolbwyntio'n well ar y gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol.
- Mae strwythurau rheoli newydd yn cefnogi dull mwy cydlynus o reoli a chyflawni cynlluniau strategol a gweithredol.
- Erys y Bwrdd yn ymrwymedig i wella ei effeithiolrwydd ac mae wedi nodi rhaglen waith berthnasol y mae angen ei datblygu yn awr er mwyn cyflawni'r nod hwn.
- Mae gwaith parhaus i atgyfnerthu fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol yn cael effaith gadarnhaol ac mae cofrestrau risg wedi'u cysoni'n well ag amcanion sefydliadol.
- Mae gwybodaeth reoli ac adrodd ar berfformiad yn ddigonol ar y cyfan ond ni chreffir i'r un graddau ar bob gwasanaeth a rhaglen.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar lywodraethu gwybodaeth ac mae cynlluniau ar waith i brofi trefniadau ond bu'r cynnydd yn erbyn rhai camau gweithredu cynlluniedig yn araf.

- Mae trefniadau ar gyfer ceisio ac ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaethau yn gwella.

**13.** Fel rhan o'm dull asesu strwythuredig parhaus, bydd fy nhîm yn edrych yn fanylach ar y ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, megis y gweithlu, ystadau a gwaith partneriaeth, yn y misoedd i ddod.

**14.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**15.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr 2014 a mis Rhagfyr 2014.

**16.** Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**17.** Mewn perthynas ag c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**18.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**19.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**20.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**21.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i llif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**22.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**23.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**24.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol

**25.** Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 5 Mehefin 2014. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau a nodwyd | Gwnaethom nodi bod un camddatganiad nas cywirwyd o £40,000, a ddygwyd i sylw'r Pwyllgor Archwilio ond nas ystyriwyd yn berthnasol i'n barn archwilio. |
| Pryderon am yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol | Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw bryderon o'r fath. |
| Anawsterau sylweddol y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr archwiliad | Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. |
| Materion sylweddol y gwnaethom eu trafod â rheolwyr a gohebu â rheolwyr yn eu cylch y mae angen i ni hysbysu'r Ymddiriedolaeth amdanynt | Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw bryderon o'r fath. |
| Unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | Nid oedd unrhyw faterion o'r fath i'w nodi. |
| Gwendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth. |
| Materion eraill | Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethu eraill. |

**26.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2014, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**27.** Adolygais amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys monitro rheolaethau, prosesau asesu risg a systemau gwybodaeth a gweithgareddau rheoli cysylltiedig.

**28.** Nododd fy adolygiad fod yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn gosod sail ddibynadwy dros baratoi'r datganiadau ariannol a chyfrannodd hyn at leihau nifer y cywiriadau i'r datganiadau ariannol.

## Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**29.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Tynnwyd sylw'r rheolwyr at rai mân wendidau yn ein hadroddiad ar femorandwm archwilio ariannol.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**30.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol; ac
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers y llynedd ynglŷn â llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau ac adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio allanol a'u holrhain.

**31.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae rheolaeth ariannol gadarn yn parhau i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn mantoli'r gyllideb ac yn cyrraedd y targedau o ran gwneud arbedion

**32.** Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar waith i bennu a monitro cyllideb 2013-14. Nododd y strategaeth gyllidebu gychwynnol ddiffyg ariannol o £1.3 miliwn. Er mwyn cau'r bwlch hwn, lluniodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o egwyddorion ariannol i'w mabwysiadu gan bob is-adran. Roedd hyn yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth o tua 1.5 y cant o wariant a arweiniodd at gyllideb fantoledig o £99.4 miliwn ym mis Mawrth 2013.

**33.** Cafodd cynlluniau arbedion gwella costau eu monitro'n rheolaidd gan y ddau dîm gweithredol a chan y Bwrdd. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni gwerth £1.3 miliwn o arbedion ar ddiwedd 2013-14, yr oedd £1.2 miliwn o'r swm hwnnw yn arbedion cylchol a £100,000 yn rhai anghylchol. Cyflawnodd warged fach hefyd o £15,000 yn unol â'r sefyllfa ragweledig lle y mantolir y gyllideb. Yn ystod 2013-14, ni hysbyswyd y Bwrdd am unrhyw faterion o bwys a oedd yn awgrymu bod y cynlluniau gwella costau yn effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir.

**34.** Yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddull newydd o ymdrin â chynllunio a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi cynllun tymor canolig integredig. Mae'r cynllun tymor canolig integredig yn gynllun treigl tair blynedd sy'n canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau, y gweithlu a phenderfyniadau ariannol. Er i'r Bwrdd gytuno ar hyn mewn egwyddor, ni chymeradwywyd y cynllun tymor canolig integredig gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhyng-ddibyniaeth y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth i eraill a dibyniaeth yr Ymddiriedolaeth ar fyrddau iechyd i ddarparu

rhai o'i gwasanaethau yn golygu na ellid cwblhau rhai agweddau ar y cynllun. Heb gynllun tymor canolig cymeradwy, gwnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi cynllun gweithredol blwyddyn o hyd.

**35.** Mae strategaeth gyllidebu'r Ymddiriedolaeth yn rhan annatod o'r cynllun gweithredol blwyddyn o hyd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hon yn dangos cyllideb fantoledig ar gyfer y flwyddyn wedi'i hategu gan arbedion cost o £2.2 miliwn gyda balans yr arbedion cylchol ac anghylchol yn newid o gymharu â'r llynedd (£1.7 miliwn o arbedion cylchol a £462,000 o rai anghylchol) a broceriaeth o £450,000 o 2013-14.

**36.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau â'i dull 'Buddsoddi i arbed, arbed i fuddsoddi', sy'n hyrwyddo disgyblaeth ariannol wrth ariannu datblygiadau gwasanaeth newydd o arbedion cynlluniedig o fewn pob is-adran. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn cynnwys mwy o fanylion am risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau arbed fel bod y Bwrdd yn fwy ymwybodol o'r hyn y gellir ei gyflawni.

**37.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos hanes da o gyflawni ei harbedion, gan gynnwys lefelau uchel o arbedion cylchol. Mae ganddi brosesau cadarn ym maes cynllunio a monitro ariannol ar waith sy'n hanfodol er mwyn ateb yr her ariannol hon, gan gynnwys:

- monitro cyllidebau misol o fewn is-adrannau;
- adroddiadau i'r bwrdd bob deufis; a
- chyfarfodydd craffu ar y gyllideb a gynhelir drwy gydol y flwyddyn o fewn is-adrannau a thrwy'r tîm gweithredol

**38.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu rheoli ei sefyllfa ariannol yn gadarn drwy gymryd camau unioni i wrthbwyso unrhyw lithriant yn ei chynlluniau arbedion ag arbedion newydd. Mae adroddiad monitro ariannol diweddaraf yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y caiff y gyllideb ei mantoli ar gyfer 2014-15 gyda gwariant £212,000 yn is na'r gyllideb.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei ffocws ar ei blaenoriaethau strategol a gweithredol, a'r risgiau cysylltiedig, a'i threfniadau llywodraethu, er bod lle i brysuro gwelliannau pellach

### Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n defnyddio fframwaith cynllunio'r GIG i helpu i ganolbwyntio'n well ar y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau strategol

**39.** Cyfrannodd yr Ymddiriedolaeth at broses gynllunio'r GIG i ddatblygu'r cynllun tymor canolig integredig a'r cynllun gweithredol blwyddyn o hyd. Mae'r cynlluniau hyn yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf mewn un man, ymrwymiadau (amcanion) strategol yr Ymddiriedolaeth a'i blaenoriaethau gweithredol, gan gynnwys targedau GIG cenedlaethol perthnasol, risgiau i gyflawni a chamau lliniaru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos bod ei gweithgareddau cynllunio a monitro yn ei helpu i ganolbwyntio'n well ar gyflawni llawer o'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gweithredol blwyddyn o hyd.

**40.** Mae diwygiadau i'r cynllun tymor canolig integredig tair blynedd o hyd yn mynd rhagddynt a chânt eu llywio gan ymgysylltiad helaeth â byrddau iechyd lleol i nodi blaenoriaethau iechyd y cyhoedd lle mae gwaith partneriaeth yn allweddol i'w cyflawni. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno cynllun tymor canolig integredig diwygiedig i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015 yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.

**41.** Mae'r cynllun gweithredol blwyddyn o hyd hefyd yn nodi'r gofynion ehangach o ran adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffactorau allweddol hyn sy'n galluogi hyn i gael ei gyflawni yn cynnwys y gweithlu, y man gwaith, gwybodeg a gwaith partneriaeth ehangach. Nodir gofynion adnoddau yn erbyn y camau gweithredu niferus sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun gweithredol. Yn ogystal â nodi gofynion o ran adnoddau, mae'r cynllun gweithredol yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu sy'n benodol i'r ffactorau sy'n galluogi hyn i gael ei gyflawni, megis datblygu a gweithredu cynllun y gweithlu.

**42.** Mae aelodau'r Bwrdd wedi nodi bod y cynllun tymor canolig integredig a'r cynllun gweithredol blwyddyn o hyd yn rhoi trosolwg da i'r Bwrdd o'r materion gweithredol a materion y gweithlu nad oedd ganddo o'r blaen.

## Mae strwythurau rheoli newydd yn cefnogi dull mwy cydlynus o reoli a chyflawni cynlluniau strategol a gweithredol

**43.** Nid yw strwythur sefydliadol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth wedi newid ond mae penodi prif weithredwr newydd wedi cynnig safbwynt newydd ar arferion gwaith a rolau. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd wedi cadarnhau penodiad dirprwy brif weithredwr i ymgymryd â rolau ychwanegol. Cynhelir cyfarfodydd tîm gweithredol wythnosol, gan ganolbwyntio'n gryf ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol. Trafodir eitemau penodol ar yr agenda ar sail gylchdroadol, yn enwedig os ydynt yn effeithio ar y modd y cyflawnir y cynllun gweithredol.

**44.** Mae timau rheoli strategol a gweithredol sydd newydd gael eu sefydlu yn helpu i feithrin cyfrifoldeb ar y cyd am gyflawni blaenoriaethau strategol a gweithredol ar draws y sefydliad. Ar ddechrau 2014, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth y Tîm Arwain a Chyflawni i ddwyn ynghyd y tîm gweithredol a'r cyfarwyddwyr is-adrannol i sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r blaenoriaethau strategol a gwneud penderfyniadau a sicrhau atebolrwydd ar y cyd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Sefydlwyd uwch dîm rheoli gweithredol hefyd ar yr un pryd i ddarparu cymorth gweithredol.

**45.** Y timau rheoli strategol a gweithredol newydd sy'n gyfrifol am ymgorffori dulliau rheoli ansawdd, diogelwch a risg yn dilyn diddymu'r grŵp rheoli ansawdd, diogelwch a risg. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr uwch dimau rheoli gweithredol yn nodi'r cyfrifoldeb hwn yn glir. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.

**46.** Mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn ymgysylltu â staff er mwyn esbonio beth fydd y cynlluniau strategol a gweithredol yn ei olygu i'w gwaith a'u rôl wrth gyflawni blaenoriaethau sefydliadol.

## Erys y Bwrdd yn ymrwymedig i wella ei effeithiolrwydd, ac mae wedi nodi rhaglen waith berthnasol y mae angen ei datblygu yn awr i gyflawni'r nod hwn

**47.** Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i wella ei effeithiolrwydd ac mae wedi gwahodd y Sefydliad Llywodraethu Da i gynnal adolygiad cyflym o lywodraethu ac ymddygiadau. Nododd yr adolygiad hwn nifer o feysydd i'w datblygu, yn enwedig o ran dealltwriaeth y Bwrdd o risg a'r awydd i fentro. Roedd hyn yn cyd-fynd â materion yr oeddwn wedi eu codi o'r blaen drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig a hefyd gyda hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio o'i effeithiolrwydd ei hun. Mae'r Bwrdd wedi nodi'r angen am raglen i ddatblygu'r bwrdd, yn enwedig o ran rheoli risg, er bod peth oedi wedi bod ar ddechrau'r broses o roi'r rhaglen ar waith.

**48.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i lenwi'r swydd a fu'n wag ers amser am gyfarwyddwr anweithredol i gynrychioli llywodraeth leol, er mai ar sail dros dro y mae hyn. Yn ogystal, ymatebodd y fforwm partneriaeth i wahoddiad yr Ymddiriedolaeth i enwebu cynrychiolwyr staff i fynychu a chyfrannu at drafodaethau'r Bwrdd.

**49.** Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd yn cydnabod y cof corfforaethol a gaiff ei golli o bosibl pan fydd y cyfarwyddwyr anweithredol cyfredol yn dechrau rhoi'r gorau i'w rolau o fis Mawrth 2016. Er mwyn rheoli'r risg hon, mae'r Bwrdd yn ystyried datblygu cynllun olynu.

**50.** Mae cynlluniau dirprwyo priodol ar waith. Cymeradwyodd y Bwrdd ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn ystod yr haf.
Yn y cyfamser, diwygiwyd y cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau'r bwrdd i leihau unrhyw orgyffwrdd ac egluro rolau a chyfrifoldebau neu gydberthnasau rhwng pwyllgorau.

**51.** Mae natur wasgaredig yr Ymddiriedolaeth yn cyfyngu ar y cyfleoedd i'r cyfarwyddwyr anweithredol ymgysylltu â staff yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn edrych am ffyrdd gwell o ymgysylltu heblaw am y gynhadledd staff flynyddol.

**52.** Mae'r Bwrdd yn parhau i hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw drwy gyhoeddi agendâu a phapurau pwyllgorau ar y rhyngrwyd. Er y cynhelir cyfarfodydd yn breifat, mae dealltwriaeth dda o'r trafodaethau a gynhelir yn y pwyllgorau amrywiol am fod y cofnodion yn ddigon clir.

**53.** Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol bellach yn haws ei ddarllen ac yn briodol onest. Mae'n rhoi darlun clir o'r meysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredol blwyddyn o hyd.

## Mae gwaith parhaus i atgyfnerthu fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol yn cael effaith gadarnhaol ac mae cofrestrau risg wedi'u cysoni'n well ag amcanion sefydliadol

**54.** Yn dilyn y methiannau llywodraethu yn sefydliadau eraill y GIG, adolygodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau ansawdd a diogelwch ac mae wrthi'n datblygu fframwaith llywodraethu clinigol, a fydd yn ychwanegu elfen arall at sicrwydd y bwrdd. Ceir tystiolaeth fod systemau ar gyfer sicrhau ansawdd ac archwilio yn gweithio'n dda o fewn Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus, a dylai'r fframwaith

llywodraethu clinigol ddarparu ffocws cydlynol sy'n ymwneud â phob rhan o'r sefydliad ar ddiogelwch clinigol ac effeithiolrwydd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau.

**55.** Yn sgil newidiadau diweddar i strwythurau rheoli a llinellau atebolrwydd, mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ac yn diweddaru polisïau a gweithdrefnau rheoli risg i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu canllawiau i helpu staff i nodi ac ymdrin â risgiau yn fwy effeithiol.

**56.** Yn y gorffennol, rwyf wedi bod yn feirniadol o ddull yr Ymddiriedolaeth o nodi a chofnodi risgiau corfforaethol ac is-adrannol, yn enwedig y diffyg cysoni ag amcanion, rheolaethau a chamau gweithredu sefydliadol i leihau'r risg. Eleni, am y tro cyntaf, mae cynlluniau strategol a gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r risgiau i gyflawni amcanion sefydliadol ac mae'r risgiau hyn yn cael eu nodi'n amlwg yn y gofrestr risg gorfforaethol a rhai cofrestrau risg is-adrannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod rheoli risg yn dod yn rhan annatod o gynllunio busnes gyda diwygiadau i drefniadau cynllunio yn sicrhau bod camau gweithredu sy'n deillio o'r cynllun tymor canolig integredig a'r cynllun gweithredol blwyddyn o hyd yn cael eu datblygu ar lefel gorfforaethol ac is-adrannol. Fodd bynnag, mae lle o hyd i egluro'r ffordd y diffinnir risgiau a chamau lliniarol er mwyn sicrhau y deellir eu hystyron yn hawdd ac y caiff eu heffeithiolrwydd ei fonitro.

**57.** Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau wedi dechrau craffu'n fwy ar y gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i reoli a lliniaru risgiau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella fformat y gofrestr risg gorfforaethol a'r modd y'i cyflwynir fel ei bod yn haws ei thrin, er enghraifft, drwy ganolbwyntio ar y risgiau â'r sgôr uchaf neu'r risgiau hynny lle mae'r sgoriau yn cynyddu.

**58.** Mae camau gweithredu i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn dechrau cael effaith ac, yn gyffredinol, mae cyfraddau cydymffurfio yn rhagori ar y targed (80 y cant) a bennwyd ar gyfer diwedd mis Mawrth 2014. Pennwyd targed mwy heriol (90 y cant) ar gyfer 2014-15 gyda chyfraddau cydymffurfio cyfredol ar gyfer hyfforddiant statudol a rhywfaint o'r hyfforddiant gorfodol ychydig yn is na'r targed. Mae'r mathau o hyfforddiant a'i amlder bellach wedi'u nodi'n glir i staff mewn Polisi Hyfforddiant Statudol a Gorfodol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd y wybodaeth a gofnodir ymhellach.

**59.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau ac arddangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i reoli argymhellion a wneir fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio yn ystod 2012, 2013 a 2014 ac ymateb iddynt. Canfu'r gwaith hwn fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar waith i ymateb ac olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad, a chaiff system graffu gadarn ei darparu gan y Pwyllgor Archwilio ac mewn rhai enghreifftiau gan y Bwrdd nes bod yr argymhellion wedi'u rhoi ar waith. Bellach mae'n fwy cyffredin i'r Pwyllgor Archwilio wahodd swyddogion i'w gyfarfodydd i ymateb i'm hadroddiadau. Mae log y Pwyllgor Archwilio yn nodi'r camau i'w cymryd ynghyd â chyfrifoldeb clir ac amserlenni ar gyfer gweithredu. Canfu fy ngwaith y canlynol :

- Mae'r camau sy'n angenrheidiol i weithredu'r argymhelliad o adolygiad 2012 o ansawdd data yn yr is-adran sgrinio yn gyflawn. Yn 2013, gweithredodd yr

Ymddiriedolaeth ei pholisi ar gyfer rheoli ansawdd data gyda chyfrifoldeb am gyflawni ansawdd data da wedi'i nodi'n glir. Mae canllawiau ar gyfer asesu cyfraniad ansawdd data i gwynion neu ddigwyddiadau hefyd wedi cael eu llunio. Mae'r system rheoli risg yn galluogi defnyddwyr i nodi a yw ansawdd data yn ffactor sy'n cyfrannu at gwynion neu ddigwyddiadau ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig ag ansawdd data.

- Roedd y camau sy'n angenrheidiol i weithredu'r argymhellion o adolygiad 2013 o drefniadau rheoli yn yr is-adran sgrinio yn gyflawn i raddau helaeth y llynedd. Mae trefniadau rheoli is-adrannol newydd ar waith ac maent yn gweithio'n dda yn ôl pob golwg. Mae amcanion is-adrannol yn gyson â chynllun gweithredol blwyddyn o hyd yr Ymddiriedolaeth, a'r uwch dîm rheoli is-adrannol sy'n llwyr gyfrifol am reoli risgiau. Mae'r gofrestr risg yn well o lawer ac wedi'i chysoni'n well ag amcanion is-adrannol. Mae datblygiad sefydliadol ar draws yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â datblygu arweinwyr a rheolwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r broses gynllunio tymor canolig integredig i wella'r trosolwg o'r goblygiadau o ran adnoddau pan fydd rhanddeiliaid allanol yn gofyn i'r Is-adran ymgymryd â gwaith ychwanegol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion o adolygiad 2013 o drefniadau rheoli o fewn yr is-adran microbioleg.
  Caiff strwythurau is-adrannol newydd eu llunio a chytunwyd mewn egwyddor ar fodel rhanbarthol ar gyfer darparu gwasanaethau. Pennwyd amserlenni realistig ac mae'r broses o'u gweithredu yn dibynnu'n rhannol ar y cyfarwyddwr gweithrediadau sydd newydd gael ei benodi. Mae fframwaith perfformiad bellach ar waith ac mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau arno drwy'r Fframwaith Ansawdd a Chyflenwi. Mae bwrdd rhaglen yn goruchwylio'r gwaith o ailgynllunio'r gwasanaeth microbioleg ac mae cyfarwyddwr anweithredol yn darparu cyswllt rhwng yr is-adran a'r Bwrdd a chaiff y cynnydd ei fonitro fel rhan o'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredol blwyddyn o hyd yr Ymddiriedolaeth.

## Mae gwybodaeth reoli ac adrodd ar berfformiad yn ddigonol ar y cyfan ond ni chreffir i'r un graddau ar bob gwasanaeth a rhaglen

**60.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod gormod o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Bwrdd a'r pwyllgorau weithiau. Er mwyn gwella llif gwybodaeth, ysgafnau llwythi gwaith a neilltuo amser i graffu'n effeithiol, mae'r tîm gweithredol yn mabwysiadu dull mwy disgybledig o adolygu unrhyw bapurau lle y gofynnir i'r Bwrdd neu ei bwyllgorau wneud penderfyniad neu gael sicrwydd. Yn ddiweddar, cyflwynwyd trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad a nodir amlder yr adroddiadau a materion ynghylch prydlondeb y data.

**61.** Mae fframwaith monitro perfformiad yr Ymddiriedolaeth - y Fframwaith Ansawdd a Chyflawni - yn parhau i esblygu. Mae bylchau mewn mesurau perfformiad, fel y rhai ar gyfer gwasanaethau microbioleg, yn cael eu llenwi, neu wedi cael eu llenwi, tra bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesurau profiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Fframwaith Ansawdd a Chyflawni yn cynnwys targedau lleol a chenedlaethol, megis sicrhau bod o leiaf 5 y cant o ysmygwyr yn ymdrechu i roi'r gorau iddi drwy

wasanaethau rhoi'r gorau i smygu. Mae'r Fframwaith Ansawdd a Chyflawni yn nodi perfformiad yn erbyn targed neu safonau ac mae'r wybodaeth am dueddiadau yn cael ei chyflwyno lle y bo'n briodol. Mae hefyd yn cynnwys naratif byr i ddangos y camau gweithredu a gymerwyd i wella perfformiad. Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at gyflawniad cyffredinol targed cenedlaethol, adroddir ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth ar wahân, fel y cyfraniad at Dim Smygu Cymru er mwyn cael smygwyr i geisio rhoi'r gorau iddi.

**62.** Mae'r Fframwaith Ansawdd a Chyflawni diweddaraf yn dangos bod perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â gwella iechyd a diogelu iechyd yn is na'r targed cenedlaethol ar gyfer y GIG yn gyffredinol. I'r gwrthwyneb, mae Dim Smygu Cymru yn cyfrannu at sicrhau bod smygwyr yn ceisio rhoi'r gorau iddi. Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i wella perfformiad ac yn cael effaith mewn rhai meysydd.

**63.** Eleni mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi chwarae rhan lai amlwg wrth ddarparu gwasanaeth monitro perfformiad gan fod y Fframwaith Ansawdd a Chyflawni ar waith bellach ac adroddiad arno wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd. Mae hyn yn galluogi'r pwyllgor i ganolbwyntio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Fodd bynnag, mae anghydbwysedd yn y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mae aelodau'n cydnabod na chreffir i'r un graddau ar bob un o wasanaethau a rhaglenni'r Ymddiriedolaeth o ran ansawdd a diogelwch. Mae llawer o fusnes y pwyllgor yn canolbwyntio ar Wasanaethau Iechyd Cyhoeddus, oherwydd eu maint a natur y gweithgareddau. Nid yw rhaglenni na gwasanaethau a ddarperir o fewn yr is-adran gwella iechyd, ac eithrio Dim Smygu Cymru, wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch o ran ansawdd, diogelwch nac effeithiolrwydd. Mae hwn yn faes y mae angen talu sylw iddo wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau i ddatblygu ei threfniadau llywodraethu.

**64.** Mae'r Fframwaith Ansawdd a Chyflawni hefyd wedi dod yn gyfrwng i adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu niferus a nodir yn y cynllun gweithredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau a ffactorau galluogi sefydliadol. Adroddir ar gynnydd yn erbyn terfynau amser a bennwyd i'w cwblhau bob chwarter ac, yng nghanol y flwyddyn, roedd mwy na thri chwarter y camau wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw naratif cyffredinol ar gyflymdra'r cynnydd na'r cyflawniad tebygol yn erbyn y cynllun. Mae'r adroddiad yn darparu sylwebaeth fer ar y rhesymau dros yr oedi a gwnaeth yr adroddiad monitro perfformiad diweddaraf nodi problemau o ran capasiti yn aml. Mae graddau'r wybodaeth a'r manylder a geir yn y Fframwaith Ansawdd a Chyflawni yn cynyddu ac mae risg na fydd digon o amser i graffu.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar lywodraethu gwybodaeth ac mae cynlluniau ar waith i brofi trefniadau ond bu'r cynnydd yn erbyn rhai camau gweithredu cynlluniedig yn araf

**65.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. Gwnaeth ailgyfansoddi ei gweithgor llywodraethu gwybodaeth yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben ac i roi'r wybodaeth gywir i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer sicrwydd ac wrth wneud penderfyniadau.

**66.** Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn parhau i wella. Mae cydymffurfiaeth gyffredinol ychydig o dan darged yr Ymddiriedolaeth o 90 y cant ond mae'n amrywio ar draws y sefydliad, o 69 y cant i 100 y cant. O fis Ionawr 2015, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno rhaglen newydd o archwiliadau nas cyhoeddwyd i brofi effeithiolrwydd ei threfniadau llywodraethu gwybodaeth. Ceir tystiolaeth fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth, megis gwybodaeth sy'n cael ei cholli wrth gael ei chludo, a bod yr hyn a ddysgir yn cael ei drosglwyddo i hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

**67.** Rhaid i sefydliadau'r GIG asesu cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Caldicott bob blwyddyn a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar gyfer gwella. Dengys sgôr hunanasesu'r Ymddiriedolaeth welliant sylweddol ers 2010 gan gynyddu o 47 y cant (sicrwydd annigonol) i 81 y cant (lefel dda o sicrwydd). Fodd bynnag, mae lle i ystyried pa gamau gweithredu rhesymol y gellir eu cymryd i wella cydymffurfiaeth er mwyn cyflawni 'lefel ragorol o sicrwydd'. Ni ddatblygwyd polisi diogelwch TG i Gymru gyfan yn ôl y disgwyl ac mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar bolisi etifeddol sy'n bum mlwydd oed. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gynllun adfer ar ôl trychineb Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar gyfer rhai rhannau o'r sefydliad ond nid yw'r cynllun hwn wedi'i brofi'n llawn eto. Yn y cyfamser, mae cynnydd o ran mapio'r holl lifau gwybodaeth wedi bod yn araf.

## Mae trefniadau ar gyfer ceisio ac ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaethau yn gwella

### Mae trefniadau ar gyfer ceisio adborth defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i esblygu ac mae tystiolaeth fod adborth yn cael ei ddefnyddio i sicrhau newid

**68.** Yn 2013, daeth fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau tra'n cydnabod y bylchau mewn gwybodaeth am brofiad defnyddwyr gwasanaethau. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Brofiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Phanel Dysgu ym mis Ionawr 2014. Diben y Panel yw gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithredu ar unrhyw adborth a roddant, gan gynnwys unrhyw beth a ddysgir o bryderon a chwynion. Caiff y Panel, a ddisgrifir fel canolbwynt y dysgu sefydliadol, lle mae dysgu yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaethau, ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae'r aelodaeth yn un eang ac yn cynnwys hyrwyddwr anweithredol a chynrychiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn recriwtio cydgysylltydd profiad defnyddwyr gwasanaethau i ddarparu gallu ac arweinyddiaeth benodedig.

**69.** Mae straeon defnyddwyr gwasanaethau bellach yn nodwedd gyson ar y Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a'r Panel Dysgu a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Ers mis Gorffennaf 2013, mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn agor gyda 'Stori Claf' ac mae 'Screening for Life', gwefan yr is-adran sgrinio, hefyd yn cynnwys clipiau fideo byr o unigolion yn sôn am eu profiadau o wasanaethau sgrinio. Ceir tystiolaeth fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar yr adborth hwn ar unwaith er mwyn sicrhau gwelliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

**70.** Yn 2013, adroddais fod yr Ymddiriedolaeth yn mapio'r dulliau sydd ar waith i gasglu adborth defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r dulliau hyn wedi'u datblygu a'u hymgorffori fwyaf o fewn gwasanaethau sgrinio, lle mae tîm ymgysylltu penodedig yn gweithio i dargedu grwpiau diamddiffyn ac 'anodd eu cyrraedd' er mwyn gwella mynediad i wasanaethau sgrinio a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt. Mae Dim Smygu Cymru hefyd yn ceisio adborth rheolaidd gan ei ddefnyddwyr gwasanaethau. Cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth ei gwaith mapio ac mae bellach yn gweithio i nodi ffyrdd o hysbysu defnyddwyr gwasanaethau o'r gwelliannau sy'n deillio o'u hadborth.

**71.** Nid yw mesurau profiad defnyddwyr gwasanaethau wedi eu cynnwys eto yn ffurfiol yn Fframwaith Ansawdd a Chyflawni'r Ymddiriedolaeth. Mae gwaith ar droed i gytuno ar nifer fach o gwestiynau craidd a dynnwyd o'r arolwg cenedlaethol o brofiad defnyddwyr gwasanaethau fel y gellir cymharu ar draws yr ystod amrywiol o raglenni a gwasanaethau. Yn y cyfamser, mae cynllun gweithredol 2014-15 yr Ymddiriedolaeth yn nodi'n glir y tair safon mewn perthynas â phrofiad y defnyddwyr gwasanaethau i gyflawni ac adrodd drwy'r Fframwaith Ansawdd a Chyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer dysgu o gwynion a digwyddiadau

**72.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio i atgyfnerthu'r dysgu o gwynion a digwyddiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac, yn 2013, daeth fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig i'r casgliad bod trefniadau gweithredol clir ar gyfer adrodd ar gwynion a digwyddiadau a'u rheoli ac ymrwymiad i ddysgu gwersi. Mae *Gweithio i Wella*, proses integredig GIG Cymru ar gyfer codi, ymchwilio i gwynion, digwyddiadau a honiadau a dysgu ohonynt, a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau wedi'u cysylltu'n annatod. Ym mis Ebrill 2014, ailneilltuodd yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldeb am y broses *Gweithio i Wella* i'r Cyfarwyddwr Nyrsio i integreiddio'n well y trefniadau â'r rhai ar gyfer profiad defnyddwyr gwasanaethau a dysgu.

**73.** Ym mis Chwefror, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth 'broses ar gyfer dysgu gwersi o honiadau a phryderon' sy'n dwyn ynghyd y trefniadau ar gyfer dysgu a nodir mewn tri pholisi ar wahân ar gyfer digwyddiadau, pryderon a honiadau. Nod y broses yw sicrhau dull safonol o nodi, rhannu ac adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd i weithredu'r hyn a ddysgwyd, yn ogystal â sicrhau bod dysgu'n llywio gwelliannau i wasanaethau.

**74.** Mae'r adolygiad blynyddol o safonau rheoli pryderon a honiadau gan Gronfa Risg Cymru yn dangos gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn mewn perthynas â dysgu o ddigwyddiadau a chyflawnodd yr Ymddiriedolaeth y sgôr uchaf ond un o blith holl gyrff y GIG yng Nghymru. Y llynedd, daeth Cronfa Risg Cymru i'r casgliad nad oedd gan yr Ymddiriedolaeth broses ffurfiol o ddysgu o ddigwyddiadau er bod tystiolaeth fod dysgu yn digwydd. Daeth asesiad eleni gan Gronfa Risg Cymru i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i ddogfennu'r dysgu ond mai prin oedd y dystiolaeth o'r modd roedd y dysgu yn llywio gwelliannau cyson ar draws y sefydliad.

**75.** Mae'r Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a'r Panel Dysgu yn bwriadu monitro'r modd y mae gwasanaethau a thimau yn trionglu ac yn darparu tystiolaeth o'r modd y mae

dysgu a gwelliannau yn deillio o gwynion a digwyddiadau. Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno templed adrodd newydd i ddwyn ynghyd y dysgu a'r adborth sy'n deillio o gwynion, digwyddiadau a honiadau mewn ffordd gyson ar draws yr ystod amrywiol o'i gwasanaethau a'i thimau. Dylai'r adroddiadau templed hyn wneud rhywfaint i fynd i'r afael â'r problemau ynghylch cysondeb a godwyd gan Gronfa Risg Cymru.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Medi 2015 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2014 | Rhagfyr 2014 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2014 | Mawrth 2014 a Mai 2014 |

Mae nifer o archwiliadau perfformiad ar y gweill o hyd yn yr Ymddiriedolaeth, ac fe'u dangosir isod, ynghyd â dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer eu cwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o drefniadau data wrth gefn | Ionawr 2015 |
| Adolygiad Diagnostig - cynhwysedd a seilwaith TG | Chwefror 2015 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014 ffi archwilio arfaethedig o £150,916 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk